**Pwyllgor Diwylliant CC 21-02 p2**

Dyddiad 18 Rhagfyr 2002

Amser 9.15am – 12.30am

Lleoliad Ystafell Bwyllgora 1, Cynnuliad Cenedlaethol Cymru

Sefydlwyd Cymdeithas Athletau Ysgolion Cymru yn 1946 gyda'r bwriad o ddarparu strwythur cystadleuol ar gyfer athletwyr gwrywaidd ysgolion uwchradd. Ers uno gyda mudiad cyfatebol y Merched dros ddeugain mlynedd yn ôl, un Cymdeithas sy wedi bodoli i wasanaethu Athletau Ysgolion yng Nghymru. Mae'r Gymdeithas yn aelod o Fwrdd Athletau Rhyngwladol Ysgolion, a Chymdeithas Athletau Cymru.

Ers 1946 trefnwyd y Gymdeithas ar sail Sir (nawr Ardal - gweler Ff. 1) gyda ysgolion unigol yn ymaelodi a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gymdeithas trwy eu cymdeithasau Sirol ac Ardal. Parhaodd hyn gyda ad-drefnu awdurdodau lleol yn 1974.

Cyn ad-drefnu yr Awdurdodau Unedol, sefydlwyd Pwyllgor Gwaith i drafod yr anawsterau fyddai'n effeithio'r Gymdeithas, a phenderfynwyd cadw at wyth Ardal i gystadlu'n genedlaethol. Teimlwyd fod y drefn yma er lles athletwyr ac athrawon yn enwedig ar gyfer ein Pencampwriaeth Cae a Thrac. Byddai'r dewis arall wedi golygu darparu llety i 1,400 o athletwyr, oedolion i'w gwarchod a'r cystadlu i barhau am ddau ddiwrnod o leiaf!

Felly mae mynediad i’n Pencampwriaeth Cenedlaethol, a’r hawl i gystadlu yng nghyfarfod trefynol Cwpan Cae a Thrac Rhyng-Ysgolion yn rhan o drefn Ardal.

## FFRAMWAITH CYSTADLU

**(Cae a Thrac a Traws Gwlad)**

LEVEL 4

Tîmau Cymru yn cystadlu

mewn Cyfarfodydd Rhyngwladol

LEVEL 3

Tîmau Ardal yn cystadlu yn y

Bencampwriaeth Cenedlaethol

LEVEL 2

Tîmau Awdurdodau Unedol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Ardal

LEVEL 1

Tîmau Ysgolion yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Awdurdod Unedol

(Ffig 2)

**Mae’r fframwaith hyn yn darparu ar gyfer y "goreuon" ac felly’n ychwanegol,**

**cynigir yn genedlaethol y canlynol:**

## Cwpan Cae a Thrac

Mae’r Gymdeithas yn ymwybodol iawn y gall athletau droi yn gamp elitaidd, gyda corffoledd personol yn golygu mantais mawr. I oresgyn hyn ac i sicrhau fod y gamp yn un i’w mwynhau yn llesol ond hefyd yn gystadleuol, cyflwynwyd y Gystadleuaeth Cwpan. Cystadleuaeth i Dimau Ysgolion oed Bl. 7-10 yw’r "Cwpan," gyda 15 aelod ar y mwya ym mhob tîm. Dechreuir y cystadlu ar level Ardal, gyda phob awdurdod Unedol yn sicrhau pedwar tîm i’r cyfarfod terfynol yn Aberhonddu ar yr ail ddydd Mercher yng Ngorffennaf..

## Pencampwriaeth Trawsgwlad Rhyng-Ysgolion

Fel y Pencampwriaeth Cae a Thrac, mae’r Pencampwriaeth Trawsgwlad yn darparu ar gyfer y goreuon ac felly mae’r Cyfarfod yma yn rhoi cyfle i’r trwch o athletwyr gystadlu ar level uwch. Tyfodd y Cyfarfod yn ei boblogrwydd dros y blynyddôedd gyda tua 700 o redwyr yn cymryd rhan mewn rasus i dri adran oed o Bl. 7 i Bl. 13. Caiff rhedwyr o amrywiaeth safonau gyfle i fod yn llwyddiannus fel unigolion ond yn bennaf fel aelod o dîm ysgol. Byddai enw ein noddwr yng nghlwm wrth y gystadleuath ac mae pob ysgol Uwchradd yng Nghymru yn derbyn llenyddiaeth ynglyn â’r Cyfarfod.

## Athletwyr Hyna

Rydym yn ymwybodol o’n cyfrifoldebau i’n athletwyr iau ond hefyd yn sylweddoli fod dyletswydd mawr arnom i gadw athletwyr ifanc sy eisioes wedi profi eu gallu. Rhaid i ni wneud hyn i sicrhau dyfodol y gamp yng Nghymru. Dros y blynyddoedd mae’r athletwyr hyna, sef oed 17-20, wedi cael y cyfle i gystadlu ar lefel lleol a chenedlaethol. Yn flynyddol trefnir cyfarfod Traws-gwlad a chae a Thrac gyda Chymdeithas Athletau Cymru a Chymdeithas Athletau Ysgolion yr Alban. Yng Nghyfarfod Traws Gwlad 2000 am y tro cyntaf bydd tîmau yn cynrychioli Ysgolion Gorllewin Canoldir Lloegr, a De Orllewin Lloegr yn cystadlu. Gobeithir cael tîm Ysgolion Gorllewin Canoldir Lloegr yn y Cyfarfod Cae a Thrac.

Golyga’r cyfleoedd hyn y gall ein Athletwyr Hyna ddilyn llwybr naturiol i lefel uwch o gystadlu. Dengys y sefyllfa hyn y berthynas iach sy’n bodoli rhyngom a Chymdeithas Athletau Cymru.

## Cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhyngwladol Ychwanegol

### Cystadleuaeth Aml-gamp

Cynhaliwyd y Bencampwriaeth poblogaidd a llwyddiannus yma ers saith mlynedd.

Cyflwynwyd y Bencampwriaeth i hybu yr agwedd yma o athletau ac mae llawer o’n pencampwyr eisioes wedi cynrychioli Prydain mewn cyfarfodydd rhyngwladol o dan 20, ac 23

### Pumcamp Rhyngwladol Dan-do

Cynhelir y cyfarfod yma’n flynyddol ym mis Rhagfyr gyda Chymdeithas Athletau Ysgolion yr Alban yn trefnu.

Datblygodd safon timau Cymru dros y blynyddoedd ac am y tro cynta enillwyd medal aur gan un o ferched Cymru yn 1999 yn yr oed o dan 18.

### Cyfarfod Rhyngwladol Cae a Thrac Dan-do

Sefydlwyd y cyfarfod yma gan Loegr yn 1994, er mwyn cyflwyno cystadleuaeth rhyngwladol i athletwyr ifanc. Cytuna pawb fod hyn yn rhan hanfodol o raglen datblygu athletwyr o dan 16.

Gyda’r cyfleustera dan-do newydd yng Nghaerdydd, pleser o’r mwya oedd i’n Cymdeithas gynnal y cyfarfod yma am 2000 - y tro cynta allan o Birmingham.

### Hyfforddi a Datblygu

Gyda chefnogaeth ac anogaeth ein cyn noddwyr TSB, cyflwynwyd rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer athletwyr o dan 15 oed ac o dan 17 oed. Cyd-noddwyd y rhaglen gyda SPORTSMATCH Cymru.

Gyda’r fenter yma fe gyd-weithiwyd gyda Chymdeithas Athletau Cymru, ac mae hyn wedi datblygu er lles athletwyr yn gyffredinol.

Anelwyd y fenter at:

- Trwch athletwyr - cyfarfodydd hyfforddi led-led Cymru ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd.

- Hyfforddiant Arbenigol - ffurfiwyd sgwad o athletwyr rhyngwladol a rhai posib i gyfarfod ar wahanol adegau o'r flwyddyn i dderbyn hyfforddiant gan hyfforddwyr Cymru ar gyfer y gwahanol gystadleuthau. Rhoddwyd y cyfle hefyd i'r athletwyr gystadlu fel sgwad mewn cyfarfodydd drwy Brydain.

- Hyfforddiant Penodol - cynhelir cwrs preswyl Pellter Canol bob mis Hydref a chwrs Aml-gamp cyn y cyfarfod Pum camp Rhyngwladol Dan-do.

Ers i ni golli ein nawdd cynhelir rhaglen llai cynhwysfawr gyda chefnogaeth Cymdeithas Athletau Cymru sy wedi derbyn rhyw ychydig o gyllid oddiwrth Cyngor Chwareaon Cymru.

## Cefnogi Cymdeithasau Ysgolion Ardal

Pan oedd noddwr yn ein cefnogi, 'roedd hi'n bosib i'r gymdeithas gynnig grant gan mae gwan iawn bu cefnogaeth awdurdodau lleol i gymdeithasau campau mewn ysgolion. Yn dilyn hyn, rhoddwyd y cyfle i gymdeithasau lleol gynnig cystadleuthau ac hyfforddiant i athletwyr ysgolion. Hefyd bu'r grant o gymorth i dalu costau teithio i ddigwyddiadau cenedlaethol.

Nid yw'r grant hyn wedi'i dalu i'r Cymdeithasau Ardal ers i'r cytundeb nawdd gyda TSB ddod i ben.

## Pam fod angen nawdd

Ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974, ni dderbyniodd y Gymdeithas unrhyw gymorth ariannol gan gyrff statudol yng Nghymry.

Cafwydd nawdd gan y canlynol:-

CWMNI ESSO - 3 blynedd

CYNGOR LLAETH CENEDLAETHOL - 11 mlynedd

TSB - 5 mlynedd

Yn dilyn uno TSB a Banc LLoyds, diddymwyd ein cytundeb nawdd gyda TSB yn 1997.

Er ymdrechion caled, buom yn aflwyddiannus i ddenu noddwr i gefnogi rhaglen gyflawn y Gymdeithas.

Cynnwys Rhaglen 2002/2003:

1. Trawsgwlad Rhyng Ysgolion Tachwedd 9 Aberhonddu

Costau - £1,000

2. Pumcamp Dan-do Rhyngwladol Rhagfyr 14 Glasgow

Costau - £3,500

3. Pencampwriaeth Trawsgwlad Cenedlaethol Mawrth 8 Aberhonddu

Costau - £1,000

4. Trawsgwlad Rhyngwladol o dan 20 oed Mawrth 23 Aberhonddu

Costau - £1000

5. Trawsgwlad Rhyngwladol Ysgolion Mawrth 29 Dublin

Costau - £6,500

6. Pencampwriaeth Aml-gamp Mehefin 28 Caerdydd

Costau - £1,500

7. Pencampwriaeth Cae a Thrac Cenedlaethol Gorffennaf 5 Aberhonddu

Costau - £6,000

8. Cystadleuaeth Cwpan Rhyng-Ysgolion Gorffennaf 16 Aberhonddu

Costau - £4,000

9. Cae a Thrac Rhyngwladol Ysgolion Gorffennaf 19 Caerdydd

Costau - £8,200

10. Cae a Thrac Rhyngwladol o dan 20 oed Gorffennaf 16 Aberhonddu

Costau - £1,600

*Dydy hwn ddim yn cynnwys costau gweinyddol - gwaith a wneir gan wirfoddolwyr - costau cyfarfodydd pwyllgor, costau yswriant na chostau dilladu eîn tîmau rhyngwladol.

**Incwm a ddisgwylir yn 2002/2003**

Taliadau Cystadlu £8,000

Nawdd (8) £3,500

Tâliadau mabwyriad £3,200